

# Heritage Healthcare

Mae staff sy'n cael eu cefnogi o fudd i bawb

## Effaith ...

- Mae morâl y staff a'r sefyllfa o ran cadw staff wedi gwella, wrth i'r staff deimlo'n fwy cysylltiedig a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Mae'r staff yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon ac yn awgrymu gwelliannau
- Mae parhad a chydberthnasau cryfach rhwng y gofalwyr a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi gwella llesiant emosiynol
- Mae pobl yn disgrifio'r gofalwyr fel rhai "cyson, gofalgar, a bob amser yn llawen"

*"Pan fydd aelodau ein tîm yn teimlo eu bod yn cael gofal da, mae'r bobl rydym yn eu cefnogi yn derbyn y gofal gorau posibl."*

## Cefndir

Mae Heritage Healthcare Abertawe yn darparu gofal cartref rheoleiddiedig i tua 75 o oedolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ledled Abertawe a'r ardaloedd cyfagos. Gyda thîm o 45 o staff, mae'r gwasanaeth yn gwybod pan fydd gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, bod pobl yn derbyn gofal gwell.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Roedd Heritage Healthcare Abertawe yn sylweddoli bod llesiant staff yn ganolog i ofal o ansawdd uchel. Cyflwynodd galwadau llesiant misol strwythuredig ar gyfer pob aelod o staff, dan arweiniad y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r galwadau hyn yn mynd y tu hwnt i sgyrsiau achlysurol: maent yn rhoi cyfle i staff rannu sut maent yn teimlo, mynegi heriau'n gynnar a dathlu llwyddiannau. Maent hefyd yn caniatáu i reolwyr nodi arwyddion cynnar o straen, archwilio anghenion hyfforddi, a chynnig cymorth emosiynol neu broffesiynol.

Mae pob sgwrs yn cael ei chofnodi a'i dilyn gan gamau gweithredu clir, fel bod y staff yn gwybod bod eu lleisiau'n bwysig.

Mae'r fenter hon yn rhan o ddiwylliant ehangach o gymorth, sy'n cynnwys llwybrau gyrfa clir a chynlluniau cydnabyddiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn creu amgylchedd lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a'u bod yn hyderus i leisio eu barn.